

Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau – Digwyddiadau Cwestiynau a Ofynnir Yn Aml

Cynnwys

2. Pa gamau ddylai partneriaid eu cymryd i baratoi at ddyfodiad y Comisiynwyr?	3
3. Faint o gyfle gaiff partneriaid i resymoli strwythurau?	3
4. Sut fydd y Comisiynwyr yn cefnogi gweithgareddau sy'n torri ar draws ardaloedd heddlu?	4
5. Sut fydd arfer da CHTh yn cael ei rannu?	4
6. Beth fydd yn digwydd os etholir ymgeisydd eithafol?	4
7. Fydd gan y CHTh ddigon o amser yn dilyn yr etholiad i osod ei gynlluniau a chysylltu'n briodol â'i bartneriaid wrth wneud hyn?.....	4
8. Pa wybodaeth a ddarperir ar gyfer ymgeiswyr CHTh?.....	5
9. Fydd yna gorff cyfunol ar gyfer Comisiynwyr?.....	5
10. Fydd y Comisiynwyr yn cael penodi ymgynghorwyr gwleidyddol?	5
11. All Comisiynwyr benodi dirprwy?	5
12. Sut all un unigolyn gynrychioli safbwyntiau ardal ddaearyddol eang / poblogaeth niferus?	5
13. A fyddwch chi'n cynnal gwiriadau diogelwch ar ymgeiswyr?	5
14. Pam bod y Swyddfa Gartref wedi dewis defnyddio'r system Pleidlais Atodol yn yr etholiad hon yn lle'r meini prawf a ddefnyddir yn yr etholiad gyffredinol?	6
15. Beth ydych chi'n ei wneud i hyrwyddo cyflwyno Comisiynwyr?	6
16. All Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu (IPCC) dderbyn honiadau troseddol yn uniongyrchol, a ble a sut y cofnodir y troseddau hynny?	6
17. Fydd yna wrthdaro o ran buddiannau yn yr ystyr bod gan brif weithredwr y CHTh ran yn y cwynion a wneir yn erbyn ei gyflogwr?	6
18. Oes rhaid i gwynion troseddol yn erbyn y CHTh gael eu hadrodd i'r IPCC o fewn 24 awr?	7
19. Sut fydd y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol (LCJB) yn ffitio gyda'r CHTh?.....	7
20. Fydd y grant troseddau ieuencid ac atal camddefnyddio sylweddau yn mynd i'r Comisiynwyr? ..	7
21. Oes yna feddwl wedi bod ar sut y gallai polisïau'r CHTh effeithio ar bolisïau a chyllidebau adrannau eraill, h.y. y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid a'i gyllid ar gyfer lleoedd mewn carchar?.....	7
22. Sut bydd Paneli yn cael eu sefydlu mewn awdurdodau dwy haen?.....	7
23. Sut fydd Paneli'n ffitio gyda lleoliaeth a swyddogaethau craffu?.....	8
24. Sut fydd aelodau annibynnol o'r Panel yn cael eu dewis?	8
26. Beth fydd rhaid i Baneli fod wedi'i wneud erbyn Gorffennaf 2012?	8
27. Sut fydd y Panel yn adrodd yn ôl i awdurdodau lleol parthed ei rôl strategol?.....	8
28. Beth yw'r sgiliau priodol sydd eu hangen ar aelodau'r Panel, oes yna gymysgedd o sgiliau wedi'u hargymell?	8
29. Fydd etholiadau lleol yn newid cyfansoddiad Paneli?	8
30. Sut fydd cyllido'r Panel yn gweithio?	8
31. Fydd y swyddog monitro hefyd yn cyflawni'r rôl parthed cwynion anhroseddol?.....	9

32. Pa fath o faerau all eistedd ar y Paneli?	9
33. All maer hefyd fod yn Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu?	9
34. Pwy fydd yn canoli os bydd anghytundeb llwyr rhwng y CHTH a'r Panel dros y Praesept?	9
35. Pa fath o wybodaeth sy'n cael ei gynnwys yn y gorchymyn gwybodaeth benodedig?	10
36. Pam bod angen y gorchymyn gwybodaeth benodedig?	10
37. Sut y lluniwyd y gorchymyn gwybodaeth benodedig?	10
38. Oes yna ystyriaeth wedi bod i'r baich y bydd y rheoliadau hyn yn ei osod ar y Comisiynwyr?..	10
39. Sut fydd yr wybodaeth ar gael i'r cyhoedd?.....	10
40. Pa bwerau fydd gan y Comisiynwyr i reoli'r Paneli (CSPs)?	11
41. Os na fydd y Comisiynwyr yn aelodau o fyrddau iechyd a lles sut allant ddylanwadu ar wariant iechyd cyhoeddus yn eu hardal?	11
42. Pam ddylai byrddau iechyd a lles gysylltu â Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu?.....	11
43. Beth mae'r Llywodraeth yn ei wneud i gefnogi gwaith partneriaeth rhwng y Comisiynwyr ac asiantaethau iechyd?.....	11
44. Beth yw blaenoriaethau'r Llywodraeth ar iechyd a chyfiawnder troseddol?.....	11
45. Pa asesiad a wnaed gan y Swyddfa Gartref o gostau'r Comisiynwyr?	12
46. Beth yw'r trefniadau ar gyfer cyllido diogelwch cymunedol yn 2012/13?	12
47. Beth yw'r trefniadau ar gyfer cyllido diogelwch cymunedol yn 2013/14 ac ymlaen o hynny?	12
48. Sut yr ymgymrir â chyllido adolygiadau Dynladdiad Domestig?	12

Themâu Cyffredinol

1. Sut fydd y Comisiynwyr yn cymryd y safbwyntiau strategol lleol a gynigir gan y Partneriaethau Diogelwch Cymunedol (CSPs) i ystyriaeth, wrth benderfynu ar flaenoriaethau a nodau ar draws y lluo?

A. Bydd asesiadau strategol a chynlluniau partneriaeth y CSP yn nodi'r prif faterion lleol a sut y delir â'r rhain. Felly, mae'r CSPs yn gyfarwydd iawn â'r materion sy'n achosi pryder i'w cymunedau lleol ac yn sicr yn darparu gwybodaeth werthfawr ac o bwys i'r CHTh. Rhagwelir y bydd y CHTh am drafod blaenoriaethau lleol gydag arweinwyr lleol eraill.

Bydd y Comisiynwyr a phartneriaid diogelwch cymunedol dan ddyletswydd ar y cyd i barchu blaenoriaethau ei gilydd. Mae Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol yn cynnwys gofyniad i'r CHTh anfon copi o'i gynllun heddlu a throseddu at bob awdurdod cyfrifol. Bydd deddfwriaeth eilaidd yn cyflwyno gofyniad ar y cyd i CSPs i anfon copi o'u cynllun partneriaeth at y CHTh ar gyfer eu hardal.

2. Pa gamau ddylai partneriaid eu cymryd i baratoi at ddyfodiad y Comisiynwyr?

A. Mae taflen wybodaeth y Swyddfa Gartref 'What partners need to know' ar gael ar wefan CHTh y Swyddfa Gartref ar y ddolen isod:

<http://www.homeoffice.gov.uk/publications/police/pcc/what-partners-need-to-know>

Bydd partneriaid am ystyried y cydweddu rhwng blaenoriaethau partneriaeth cyfredol, anghenion defnyddwyr gwasanaeth a diddordebau posibl y CHTh. Efallai y byddant hefyd am sicrhau bod eu hachosion busnes ar gyfer rhaglenni sy'n bod eisoes neu argymhellion ar gyfer dulliau newydd o weithredu yn rhai cadarn; gallai hyn gynnwys y sail tystiolaeth a gwerth am arian y rhaglenni. Bydd hyn yr un mor wir am y sectorau statudol a gwirfoddol, yn arbennig er mwyn rhoi gwybodaeth ar gyfer gwneud penderfyniadau ar gyllido. Dyma un o'r prif negeseuon a drafodwyd yn yr 17 Digwyddiad CHTh a gynhaliwyd yn ddiweddar ar draws Cymru a Lloegr.

3. Faint o gyfle gaiff partneriaid i resymoli strwythurau?

A. Ble fydd partneriaethau yn gweithio'n dda gallant rwystro dyblygu gwaith, lleihau costau a mynd i'r afael â materion drwy ddatrys problemau ar y cyd.

Bydd CSPs yn cadw'u swyddogaethau statudol presennol ac yn parhau i weithredu fel y gwnânt ar hyn o bryd. Fodd bynnag, bydd y newidiadau sydd i ddod i'r tirwedd lleol yn rhoi'r cyfle i ystyried os yw'r strwythurau presennol yn parhau i ateb gofynion lleol yn y modd mwyaf effeithiol ac os oes yna gyfiawnhad dros resymoli neu symleiddio trefniadau partneriaeth lleol.

Mae ardaloedd megis Swydd Gaerloyw, Swydd Gaerhifryn, Norfolk a Chaerdydd yn atgyfnerthu eu trefniadau partneriaeth mewn gwahanol ffyrdd. Mae'r rhain yn cynnwys uno partneriaethau diogelwch cymunedol, creu trefniadau traws bartneriaeth gyda chyrrff cyfiawnder troseddol neu hyd yn oed sefydlu comisiynu ar draws y sectorau ledled yr ardal heddlu. Bydd cyfle i arweinwyr lleol ddefnyddio'r hyblygrwydd sy'n bod eisoes i fynd i'r afael â'r diwygio hwn drwy ddwyn synnwyr i'r cymhlethdod, yn lleol.

4. Sut fydd y Comisiynwyr yn cefnogi gweithgareddau sy'n torri ar draws ardaloedd heddlu?

A. Bydd y Gofyniad Plismona Strategol cysgodol yn gosod y galluoedd cyfunol y bydd disgwyl i heddluoedd ledled Cymru a Lloegr fod â nhw mewn trefn i amddiffyn y cyhoedd rhag bygythiadau traws ffiniol megis terfysgaeth, argyfyngau sifil, anrhefn cyhoeddus a throseddu ar raddfa eang.

Bydd y gofyniad plismona strategol yn gymorth i Gomisiynwyr i greu cydbwysedd effeithlon rhwng blaenoriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Bydd rhaid i'r Comisiynwyr gymryd y gofyniad plismona strategol i ystyriaeth wrth osod eu cynllun heddlu a throseddu a byddant yn dal prif swyddogion yn atebol am eu cydymffurfriad ag ef wrth ymarfer eu swyddogaethau.

Tu allan i'r gofyniad plismona strategol, bydd y Comisiynwyr yn rhydd i gydweithio â Chomisiynwyr eraill neu arweinwyr lleol eraill ac efallai am ystyried pennu blaenoriaethau ar y cyd.

5. Sut fydd arfer da CHTh yn cael ei rannu?

A. Bydd Cymdeithas Awdurdodau'r Heddlu (APA) yn sefydlu corff cenedlaethol dros dro ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu. Mae'r APA wedi derbyn cyllid cyfyngedig i sefydlu corff dros dro i sicrhau y bydd y Comisiynwyr yn cael y cyfle i ystyried a ydynt am gael corff cyfunol i'w cynrychioli ai peidio.

Byddai'r corff hwn yn cael ei leoli yn y man gorau i gefnogi a chynrychioli Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ym mis Tachwedd. Un o'r gwasanaethau y bydd Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu (APCC) yn ei ddarparu fydd cynorthwyo'r Comisiynwyr i gydweithio i rannu arferion, caffael gwasanaethau, a chanfod ffyrdd i gael canlyniadau drwy gydweithio effeithiol.

6. Beth fydd yn digwydd os etholir ymgeisydd eithafol?

A. Rydym yn hyderus na fydd eithafwyr yn llwyddo i gael eu hethol i wasanaethu fel Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu. Rydym yn ymddiried ym mhobl Prydain a dengys hanes etholiadol diweddar ein bod yn gywir wrth wneud hynny.

7. Fydd gan y CHTh ddigon o amser yn dilyn yr etholiad i osod ei gynlluniau a chysylltu'n briodol â'i bartneriaid wrth wneud hyn?

A. Rhaid cyhoeddi cynlluniau heddlu a throseddu cyntaf y CHTh erbyn diwedd Mawrth 2013. Wrth ddatblygu eu cynlluniau heddlu a throseddu drafft, bydd yn ddyletswydd ar y Comisiynwyr i ymgynghori â'r prif gwnstabl, y cyhoedd a dioddefwyr, a bydd y paneli heddlu a throseddu yn craffu ar eu cynlluniau. Bydd digon o amser ar gyfer y prosesau hyn ond bydd angen i Gomisiynwyr a'u timau weithredu'n gyflym.

Bydd prif weithredwyr awdurdodau heddlu a'u timau o angenrheidrwydd yn dechrau gweithio ar gynlluniau heddlu a throseddu drafft cyn y bydd Comisiynwyr yn dechrau ar eu swyddi. Mae'n hanfodol y bydd yr amrediad llawn o bartneriaid yn bwydo i mewn i'r broses i sicrhau y bydd y cynllun fel canlyniad yn wirioneddol adlewyrchu'r materion fydd o'r pwys mwyaf yn lleol, a bod prif weithredwyr yn cysylltu fwyfwy â phartneriaid yn lleol, wrth gadw hyn mewn cof.

Ymgeiswyr

8. Pa wybodaeth a ddarperir ar gyfer ymgeiswyr CHTh?

A. Bydd tudalennau CHTh ar wefan y Swyddfa Gartref yn cael eu hailwampio yn ystod yr wythnosau nesaf, gyda rhannau penodol ar gyfer y cyhoedd, partneriaid ac ymgeiswyr. Bydd yr adran ar gyfer ymgeiswyr yn cynnwys cyfarwyddiadau i'r ymgeisydd ar lefel genedlaethol ar nifer o feysydd – y model CHTh, y tirwedd cenedlaethol, strategaethau cenedlaethol, a phartneriaethau a chomisiynu.

9. Fydd yna gorff cyfunol ar gyfer Comisiynwyr?

A. Er mwyn caniatáu llais cyfunol ar gyfer Comisiynwyr yn dilyn dileu awdurdodau heddlu yn hwyrach eleni, bydd corff dros dro yn cael ei sefydlu. Y Comisiynwyr eu hunain fydd yn penderfynu unwaith y byddant wedi dechrau ar eu swyddi os bydd y corff hwn yn un parhaol a phwy fyddai'n ei redeg.

Bydd Cymdeithas Awdurdodau'r Heddlu (APA) yn sefydlu corff cenedlaethol dros dro ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau. Mae'r APA wedi derbyn cyllid cyfyngedig i sefydlu corff dros dro i sicrhau y bydd y Comisiynwyr yn cael y cyfle i ystyried a ydynt am gael corff cyfunol i'w cynrychioli ai peidio.

10. Fydd y Comisiynwyr yn cael penodi ymgynghorwyr gwleidyddol?

A. Tra bydd y CHTh yn cael penodi staff i roi cyngor a chymorth iddo, rhaid penodi holl staff yn ôl teilyngdod a bydd yn cael ei gyfyngu'n wleidyddol yn ei swydd. Ni ellir penodi deiliaid swydd mewn plaid wleidyddol ac aelodau gweithredol plaid ar staff y Comisiynwyr. Nid yw'r cyfyngiad hwn yn berthnasol i ddirprwy gomisiynwyr.

11. All Comisiynwyr benodi dirprwy?

A. Gall CHTh benodi dirprwy CHTh a dirprwyo swyddogaethau iddo i'w cyflawni. Ni fydd cyfyngiad gwleidyddol ar ddirprwy CHTh, ond bydd cyfyngiadau tebyg i'r hyn fydd ar y CHTh yn gymwys, ni all dirprwy fod yn CHTh mewn man arall, nac yn aelod o'r Tŷ Cyffredin, y Senedd Ewropeaidd, nac o lywodraethau a ddatganolwyd. Bydd penodiad y dirprwy yn dod i ben pan fydd cyfnod cyfredol y CHTh yn dod i ben.

12. Sut all un unigolyn gynrychioli safbwyntiau ardal ddaearyddol eang / poblogaeth niferus?

A. Mae'r Llywodraeth yn credu y gall un unigolyn gynrychioli ardal fawr. Mae Maer Llundain yn cynrychioli dros saith miliwn a hanner o bobl (poblogaeth llawer mwy nag unrhyw un o'r ardaloedd heddlu tu allan i'r brif ddinas) mewn dinas sy'n eithriadol amrywiol, ac ar gyfer amrywiaeth o wasanaethau cyhoeddus – nid dim ond plismona.

13. A fyddwch chi'n cynnal gwiriadau diogelwch ar ymgeiswyr?

A. Na. Nid oes gan y Llywodraeth yr hawl i benderfynu pwy all neu na all sefyll. Bydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau:

- yn ôl gorchymyn, wedi'u neilltuo fel gweision y Goron at ddibenion Deddf Cyfrinachau Swyddogol 1989;

- yn llofnodi dogfen yn dilyn eu hapwyntiad fydd yn egluro’u rhwymedigaethau dan Ddeddf Cyfrinachau Swyddogol 1989;
- yn cael eu “hysbysu” ar gyfer dibenion y Ddeddf ar sail achos wrth achos pan fydd gofyn am hyn.

14. Pam bod y Swyddfa Gartref wedi dewis defnyddio’r system Pleidlais Atodol yn yr etholiad hon yn lle’r meini prawf a ddefnyddir yn yr etholiad gyffredinol?

A. Bydd y Bleidlais Atodol yn unioni’r dull o ethol gyda’r dull o ethol Maer Llundain a phob etholiad maer arall yn Lloegr. Mae’n sicrhau bod yr ymgeisydd llwyddiannus yn ennill o leiaf 50% o’r pleidleisiau sydd ar ôl yn y cyfrif.

Gwybodaeth Gyhoeddus

15. Beth ydych chi’n ei wneud i hyrwyddo cyflwyno Comisiynwyr?

A. Bydd gan y Swyddfa Gartref rôl i’w chwarae wrth roi gwybodaeth i’r cyhoedd parthed Polisi’r CHTh. Byddwn yn codi ymwybyddiaeth o’r rôl ac yn esbonio beth fydd y newidiadau hyn yn ei olygu i’r cyhoedd a’n partneriaid. Bydd gan y Comisiwn Etholiadol rôl i esbonio mecanweithiau’r etholiad, y system Pleidleisio Atodol a sut a ble i fynd i bleidleisio.

Profodd ymgyrch gyfryngol y Swyddfa Gartref i gefnogi 17 Digwyddiad Partner rhanbarthol ar draws Cymru a Lloegr rhwng Ionawr a Mawrth yn llwyddiant sylweddol o ran hyrwyddo’r prif negeseuon ynghylch Comisiynwyr i’r cyhoedd ac ymgeiswyr posibl.

Byddwn hefyd yn defnyddio amrediad llawn o sianeli eraill i ddarparu gwybodaeth i bartneriaid, drwy e-fwletinâu, cylchlythyrau, gwefanau ac roedd angen cyfarfodydd briffio uniongyrchol.

Cwynion (Troseddol)

16. All Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu (IPCC) dderbyn honiadau troseddol yn uniongyrchol, a ble a sut y cofnodir y troseddau hynny?

A. Gall. Os gwneir cwyn i’r IPCC bydd yn ei drosglwyddo i’r Panel Heddlu a Throseddu i wneud penderfyniad parthed cofnodi, oni bai fod yna amgylchiadau eithriadol. Rhaid i’r Panel Heddlu a Throseddu (PCP) gofnodi cwynion.

17. Fydd yna wrthdaro o ran buddiannau yn yr ystyr bod gan brif weithredwr y CHTh ran yn y cwynion a wneir yn erbyn ei gyflogwr?

A. Na. Gall y PCP ddewis dirprwyo’r delio â chwynion i swyddog monitro’r CHTh ond nid oes rhaid gwneud hyn. Bydd y swyddog monitro’n gyfrifol am ddelio’n ddechreuol â’r cwynion yn unig, ac nid am eu datrys. Mewn sawl ffordd, mae’r trefniant hwn yn adlewyrchu arfer presennol yr awdurdod heddlu lle bydd staff yr awdurdod heddlu yn delio â chwynion yn erbyn aelodau. I ychwanegu at hyn gall PCP ofyn i staff y CHTh i ymddangos o’u blaen i ateb unrhyw gwestiynau y teimlant sy’n angenrheidiol er mwyn cyflawni eu swyddogaethau.

18. Oes rhaid i gwynion troseddol yn erbyn y CHTH gael eu hadrodd i'r IPCC o fewn 24 awr?

A. Lle bydd angen cyfeirio cwyn neu fater ymddygiad i'r IPCC, rhaid hysbysu'r IPCC o fewn 24 awr i'r Panel Heddlu a Throseddu ganfod y dylid cyfeirio cwyn atynt.

Y System Cyfiawnder Troseddol (CJS)

19. Sut fydd y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol (LCJB) yn ffitio gyda'r CHTH?

A. Mae'r ddyletswydd cyfiawnder troseddol i gydweithredu yn datgan bod rhaid i'r CHTH a chyrrff cyfiawnder troseddol yn yr ardal honno "wneud trefniadau (cyn belled â'i bod yn briodol i wneud hynny) i arfer eu swyddogaethau er mwyn darparu system cyfiawnder troseddol ar gyfer yr ardal heddlu." Y cyrrff cyfiawnder troseddol a gynhwysir yn y ddyletswydd hon yw'r rheiny sy'n ffurfio'r LCJB (yr heddlu, yr erlyniad, y llysoedd, a thimau troseddu ieuenctid, carchardai a'r gwasanaeth prawf). Nid ydym yn gorchymyn ar sut y bydd y CHTH ac asiantaethau'r System Cyfiawnder Troseddol yn cydweithio. Cyfrifoldeb ardaloedd lleol yw sefydlu trefniadau gwaith fydd yn cyflawni system cyfiawnder troseddol effeithlon yn yr ardal benodol honno.

20. Fydd y grant troseddu ieuenctid ac atal camddefnyddio sylweddau yn mynd i'r Comisiynwyr?

A. Na. Bydd y grant yn dod i ben ym mis Mawrth 2013. Rydym yn anelu at gyhoeddi gwybodaeth ym mis Mehefin fydd yn darparu manylion o drefniadau yn 2012-13, Cronfa Diogelwch Cymunedol newydd y Swyddfa Gartref y bydd y Comisiynwyr yn ei derbyn yn 2013-14, ac o sefydlu'r CSF, y ffynonellau cyllido fydd yn dod i ben o ddiwedd Mawrth 2013.

21. Oes yna feddwl wedi bod ar sut y gallai polisiau'r CHTH effeithio ar bolisiau a chyllidebau adrannau eraill, h.y. y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a'i gyllid ar gyfer lleoedd mewn carchar?

A. Bydd Comisiynwyr angen gweithio'n effeithiol gydag arweinyddion lleol eraill yn eu hardal heddlu, yn cynnwys gweithio i ddylanwadu ar y modd y bydd pob parti yn blaenoriaethu ac yn dod ag adnoddau at ei gilydd i gwrdd â phroblemau lleol a blaenoriaethau.

Bydd gan y Comisiynwyr ran mewn comisiynu gwasanaethau megis gwasanaethau atal troseddu o Ebrill 2013, gan gymryd anghenion a blaenoriaethau lleol i ystyriaeth. Bydd yn bwysig y bydd timau troseddu ieuenctid yn dal i fod â rhan, ond allbwn allweddol eleni fydd cefnogi datblygiad achos busnes lleol dros atal troseddu ieuenctid, i alluogi'r CHTH i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth am hyn, yng ngoleuni galwadau a blaenoriaethau eraill.

Paneli Heddlu a Throseddu (PCPs)

22. Sut bydd Paneli yn cael eu sefydlu mewn awdurdodau dwy haen?

A. Bydd gan bob awdurdod lleol o fewn yr ardal heddlu o leiaf un sedd ar y Panel Heddlu a Throseddu. Rhaid i'r Panel, cyn belled ag y bo'n ymarferol, fod yn gytbwys i gynrychioli'r

ardal heddlu gyfan, gan gynnwys cydbwysedd yn ddaearyddol. Yr awdurdodau lleol fydd yn gyfrifol am benderfynu sut y cyflawnir hyn, a sut y sefydlir Panel.

23. Sut fydd Paneli'n ffitio gyda lleoliaeth a swyddogaethau craffu?

A. Fel swyddog wedi'i ethol yn ddemocrataidd, yr etholaeth – drwy'r blwch pleidleisio – fydd y beirniad terfynol ar p'un ai a yw'r CHTh yn perfformio'n ddigonol. Bydd y PCPs yn cyflwyno gwiriadau a chydbwyseddau cadarn i sicrhau y bydd rôl y CHTh yn cael ei gyflawni'n briodol. Bydd gwneud penderfyniadau a gwariant hefyd yn amodol ar reolau llym ar dryloywder i sicrhau craffu effeithiol gan y cyhoedd.

24. Sut fydd aelodau annibynnol o'r Panel yn cael eu dewis?

A. Rhaid i'r Panel ei hun ddewis a phenodi'r aelodau annibynnol sydd i'w cyfethol ar y panel.

Gwyddom bod rhai ardaloedd eisoes yn hysbysebu am aelodau annibynnol ac yn chwilio am geisiadau/mynegiant o ddiddordeb ellir eu rhoi gerbron y Panel yn ystod eu cyfarfod cyntaf. Mae'r Gymdeithas Llywodraeth Leol (LGA) yn cefnogi llywodraeth leol i rannu arfer yn y maes hwn a meysydd eraill.

25. Beth fydd yr awdurdod lletyol yn ei wneud yn hollol?

A. Bydd yr awdurdod lletyol yn derbyn cyllid gan y Swyddfa Gartref a gweinyddu'r Panel. Nid yw lletya yn golygu arwain y panel.

26. Beth fydd rhaid i Baneli fod wedi'i wneud erbyn Gorffennaf 2012?

A. Ysgrifennodd yr Ysgrifennydd Cartref at bob awdurdod lleol ym mis Ionawr yn eu gwahodd i ddechrau gweithio ar sefydlu Paneli. Yn y llythyr hwnnw gofynnwyd i awdurdodau lleol gytuno ar awdurdod lletyol, enwebu a phenodi eu haelodau o'r cynghorau, a hysbysu'r Swyddfa Gartref bod Panel wedi'i sefydlu erbyn Gorffennaf.

27. Sut fydd y Panel yn adrodd yn ôl i awdurdodau lleol parthed ei rôl strategol?

A. Bydd gan bob awdurdod lleol yn yr ardal heddlu o leiaf un cynghorydd ar y Panel Heddlu a Throsedd. Y panel, yr aelodau a'r awdurdodau lleol unigol fydd yn penderfynu sut y bydd gwybodaeth yn cael ei drosglwyddo o un i'r llall.

28. Beth yw'r sgiliau priodol sydd eu hangen ar aelodau'r Panel, oes yna gymysgedd o sgiliau wedi'u hargymell?

A. Mae'r nod penodi cytbwys yn gofyn bod gan aelodau'r awdurdod lleol y sgiliau, yr wybodaeth a'r profiad angenrheidiol i'r panel fedru cyflawni eu swyddogaethau yn effeithiol. Bydd y Swyddfa Gartref yn cynghori ar y cymysgedd sgiliau a argymhellir.

29. Fydd etholiadau lleol yn newid cyfansoddiad Paneli?

A. Dylid o ddifri adolygu'r cydbwysedd o fewn y Panel, yn cynnwys ar ôl etholiadau, i sicrhau bod aelodaeth o'r panel yn cyflawni gofynion y nod penodi cytbwys "cyn belled ag y bo'n ymarferol".

30. Sut fydd cyllido'r Panel yn gweithio?

A. Bydd y Swyddfa Gartref yn darparu cyllid i gynorthwyo Paneli i gyflawni eu swyddogaethau, fel y nodir yn y Ddeddf. Bydd cyfanswm o £53,000 yn cael ei ddarparu ar gyfer cymorth a chostau rhedeg bob Panel. Yn ogystal gall pob aelod o'r Panel dderbyn hyd at £920 y flwyddyn, i gyllido costau angenrheidiol. Bydd y cyllid ar gyfer y flwyddyn gyntaf yn cael ei ddarparu ar sail pro rata i gyfro rhwng Hydref 2012 a Mawrth 2013.

Bydd y cyllid hwn yn cael ei drosglwyddo i'r awdurdod 'lletyol' fel grant.

Cwynion Anhroseddol

31. Fydd y swyddog monitro hefyd yn cyflawni'r rôl parthed cwynion anhroseddol?

A. Bydd y Panel Heddlu a Throseddu yn penderfynu pwy sy'n ymgymryd â delio â chwynion anhroseddol. Bydd hyn yn ôl eu doethineb a gallant ddirprwyo'r rôl hon i'r swyddog monitro os teimlant bod hynny'n briodol.

Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a Maerau

32. Pa fath o faerau all eistedd ar y Paneli?

A. Lle bydd awdurdod lleol wedi ethol maer dan Rhan Dau Deddf Llywodraeth Leol 2000, rhaid i'r awdurdod lleol enwebu'r maer fel aelod y cyngor ar y panel, neu un o'r cynghorwyr eraill, drwy gytundeb. Bydd hyn yn gymwys i bob maer.

33. All maer hefyd fod yn Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu?

A. Gallai'r cyhoedd benderfynu ethol un person ar gyfer y ddwy rôl, a fyddai'n rhoi i un unigolyn etholedig gyfrifoldeb dros droseddu a phlisma ar draws ardal heddlu, yn ogystal â thros y diogelwch cymunedol ehangach ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn yr ardal awdurdod lleol honno.

Yr etholaeth fydd yn gyfrifol am benderfynu a fyddai o unrhyw fudd cyfuno'r rolau hyn, a chymrwyd camau i sicrhau y bydd craffu annibynnol cyhoeddus yn cael ei gyflawni gan y Panel Heddlu a Throseddu yn erbyn penderfyniadau'r CHTh, a gan y pwyllgor trosolwg a chraffu lleol ar benderfyniadau a wneir gan y Maer. Bydd gan y cyhoedd hefyd fynediad at wybodaeth a chofnodion ar y penderfyniadau a wnaed, ac at yr arian a wariwyd gan y CHTh a'r Maer.

Praesept

34. Pwy fydd yn canoli os bydd anghytundeb llwyr rhwng y CHTh a'r Panel dros y Praesept?

A. Gan y CHTh fydd y cyfrifoldeb terfynol dros osod y Praesept, sydd yn gywir gan mai'r CHTh fydd yn gorfod ateb drosto i'r cyhoedd.

Bydd manylion yr wybodaeth hon ar gael yn y ddeddfwriaeth eilaidd sydd yn y broses o gael ei gosod.

Comisiynwyr a Thryloywder (gorchymyn gwybodaeth benodedig)

35. Pa fath o wybodaeth sy'n cael ei gynnwys yn y gorchymyn gwybodaeth benodedig?

A. Bydd y gorchymyn gwybodaeth benodedig yn sicrhau bod y Comisiynwyr yn rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd parthed:

- Pwy ydynt a'r hyn y maent yn ei wneud
- Faint y maent yn ei wario a sut y maent yn gwneud hynny
- Beth yw eu blaenoriaethau a sut mae pethau'n mynd
- Sut y byddant yn gwneud penderfyniadau, eu cofnodi a'u cyhoeddi
- Pa bolisiau a gweithdrefnau sy'n rheoli'r gweithredu yn swyddfa'r CHTh
- Datguddiad cyhoeddus o gofrestru diddordebau

36. Pam bod angen y gorchymyn gwybodaeth benodedig?

A. Mae'n angenrheidiol oherwydd bod y cyhoedd angen gwybodaeth annibynnol, cyson a thryloyw ar berfformiad a gweithgareddau eu CHTh i sicrhau bod atebolrwydd democrataidd yn cael ei weithredu'n effeithiol. Mae tryloywder yn hanfodol i hyrwyddo hyder yn y CHTh etholedig. Bydd sail tystiolaeth lleiafswm cyson hefyd yn caniatáu iddynt gymharu perfformiad eu CHTh gyda Chomisiynwyr mewn mannau eraill.

37. Sut y lluniwyd y gorchymyn gwybodaeth benodedig?

A. Fe'i datblygwyd drwy ddefnyddio dogfennau diffiniad a gynhyrchwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar gyfer awdurdodau lleol, awdurdodau heddlu a heddluoedd, ynghyd ag eithriadau gwybodaeth llywodraeth leol a'r Cod (drafft ar y pryd) Arfer Argymelledig ar gyfer Awdurdodau Lleol ar Dryloywder Data, a gynhyrchwyd gan yr Adran dros Gymunedau a Llywodraeth Leol.

38. Oes yna ystyriaeth wedi bod i'r baich y bydd y rheoliadau hyn yn ei osod ar y Comisiynwyr?

A. Mae'r Llywodraeth yn hyderus y bydd y Comisiynwyr mewn sefyllfa i gyhoeddi'r wybodaeth hon, gan fod y rhan fwyaf o'r wybodaeth y bydd y rheoliadau yn gofyn i'r Comisiynwyr ei chyhoeddi yn ofyniad ar awdurdodau heddlu eisoes. Byddwn yn gweithio'n agos gyda phartneriaid wrth asesu'r defnydd o'r rheoliadau yn Llundain, ac yn newid y Gorchymyn cyn mis Tachwedd os bydd tystiolaeth i awgrymu y gallwn gynnal y tryloywder a lleihau'r baich ar y CHTh.

39. Sut fydd yr wybodaeth ar gael i'r cyhoedd?

A. Mae'r Llywodraeth yn llwyr ddisgwyl i Gomisiynwyr fod yn gallu ateb y gofyniad yn y rhan fwyaf os nad ym mhob achos drwy gyhoeddi gwybodaeth ar eu gwefan. Bydd cyfarwyddyd ar y gorchymyn a roddir i'r Comisiynwyr yn awgrymu enghreifftiau o arfer da wrth roi gwybodaeth gerbron. Heblaw am fynnu bod yr wybodaeth ar gael ar-lein, ac mewn dull sy'n gyson gydag egwyddorion ymrwymiad y Llywodraeth i dryloywder, ni fydd y Llywodraeth yn clymu dwylo'r CHTh na Swyddfa'r Maer dros Blismona a Throseddu (MOPC) drwy fynnu yn union sut y dylid ei gyhoeddi. Efallai y bydd yn ddymunol gweld gwybodaeth (data yn arbennig) yn cael ei chyhoeddi mewn dull unffurf, ond gallai hyn brofi'n anymarferol a biwrocataidd mewn rhai achosion. Yn rhan o'r ymrwymiad i dryloywder mae ymrwymiad i leihau beichiau dianghenraid ar bartneriaid.

40. Pa bwerau fydd gan y Comisiynwyr i reoli'r Paneli (CSPs)?

A. Ni fydd gan y Comisiynwyr bwerau i reoli na chyfeirio'r Paneli. Bydd awdurdodau sy'n gyfrifol am ddiogelwch cymunedol a'r Comisiynwyr dan ddyletswydd ar y cyd i gydweithredu a pharchu blaenoriaethau ei gilydd.

Bydd gan y Comisiynwyr y grym i alw cynrychiolwyr CSP ynghyd ar gyfer cyfarfod o'r llw cyfan (ni fydd hyn yn digwydd yng Nghymru) a gofyn am adroddiad gan CSP.

Yn Lloegr bydd gan y CHTH y grym i roi sêl bendith ar Baneli yn uno, ar gais pob awdurdod cyfrifol.

Iechyd

41. Os na fydd y Comisiynwyr yn aelodau o fyrddau iechyd a lles sut allant ddylanwadu ar wariant iechyd cyhoeddus yn eu hardal?

A. Mae Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012 yn gosod aelodaeth statudol craidd y byrddau iechyd a lles. Mae awdurdodau lleol neu fyrddau iechyd a lles yn rhydd i ychwanegu aelodau all ddod â sgiliau neu safbwyntiau arbennig i mewn, neu bod â chyfrifoldebau statudol allweddol all gynorthwyo gwaith y bwrdd, megis y rheiny o'r system cyfiawnder troseddol. Bydd gan y Comisiynwyr bwerau cyllido a chomisiynu ellid eu defnyddio ar gyfer ymyriadau yn ymwneud ag iechyd.

42. Pam ddylai byrddau iechyd a lles gysylltu â Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu?

A. Byrddau iechyd a lles sy'n gyfrifol am leihau anghydraddoldebau iechyd yn eu hardal. I wneud hynny mae angen iddynt sicrhau bod gan y bobl mwyaf anfanteisiol yn eu cymuned fynediad cyfartal at ofal iechyd, hyd yn oed os nad ydynt ar hyn o bryd mewn cysylltiad ag asiantaethau iechyd. Mae'r heddlu mewn cysylltiad cyson gyda'r grŵp bregus hwn fel rhan o'u gweithgareddau o ddydd i ddydd. Bydd gan yr heddlu fydd yn gweithio gyda'r CHTH wybodaeth unigryw, cudd-wybodaeth a chyfleoedd i ymyrryd y gall asiantaethau iechyd eu defnyddio a'u gwau i mewn i'w hasesiadau anghenion strategol ar y cyd.

43. Beth mae'r Llywodraeth yn ei wneud i gefnogi gwaith partneriaeth rhwng y Comisiynwyr ac asiantaethau iechyd?

A. Mae'r Llywodraeth yn cefnogi partneriaid rheng flaen i annog gwaith partneriaeth drwy llynyn gwaith cyfiawnder troseddol sy'n ffurfio rhan o'r Rhwydwaith Dysgu Cenedlaethol ar gyfer byrddau iechyd a lles cysgodol. Bydd y llynyn gwaith yn datblygu cynnyrch i bwysleisio'r cysylltiadau rhwng iechyd, a'r drosedd, a'r materion diogelwch cymunedol.

44. Beth yw blaenoriaethau'r Llywodraeth ar iechyd a chyfiawnder troseddol?

- A. Mae blaenoriaethau'r Llywodraeth ar iechyd a chyfiawnder troseddol yn cynnwys:
- Cael troseddwyd i ddod oddi ar gyffuriau am byth a thaclo dibyniaeth ar alcohol, gyda ffocws ar adferiad;
 - Sicrhau y canfyddir y rheiny sydd â phroblemau iechyd meddwl cyn gynted â phosibl yn y system cyfiawnder troseddol fel y gellir darparu'r driniaeth gywir yn y lleoliad mwyaf priodol;

- Lle bo'n briodol, dargyfeirio pobl ifanc oddi wrth y system cyfiawnder ieuencid mor gynnar â phosibl.

Cyllid

45. Pa asesiad a wnaed gan y Swyddfa Gartref o gostau'r Comisiynwyr?

A. Ni ddylai costau rhedeg fod yn fwy na chostau awdurdodau heddlu ar hyn o bryd. Y CHTh fydd yn penderfynu faint y bydd yn ei wario. Bydd y costau hyn yn cael eu datgan yn gyhoeddus, yn ôl gofyniad y rheoliadau, a disgwyliwn i'r cyhoedd ddal y CHTh yn atebol amdanynt.

46. Beth yw'r trefniadau ar gyfer cyllido diogelwch cymunedol yn 2012/13?

A. Bydd cyllid yn parhau dan drefniadau sy'n bodoli ar gyfer cyllido diogelwch cymunedol a'r rhan fwyaf o grantiau troseddu a chyffuriau am y flwyddyn ariannol gyfan 2012/13.

47. Beth yw'r trefniadau ar gyfer cyllido diogelwch cymunedol yn 2013/14 ac ymlaen o hynny?

A. Yn 2013/14 bydd y Comisiynwyr yn derbyn arian o Gronfa Diogelwch Cymunedol (CSF) newydd i gefnogi eu blaenoriaethau. Ni fydd cyfyngu ar y CSF a bydd y Comisiynwyr yn gallu defnyddio'r cyllid i gomisiynu gwasanaethau sy'n taclo cyffuriau a throseddu, lleihau ail-droseddu, a gwella diogelwch cymunedol.

Nid yw'r union lefel a dyraniadau'r CSF yn 2013/14 wedi'u penderfynu eto. Bydd cyllid ar gyfer troseddu, cyffuriau a diogelwch cymunedol yn is yn 2013/14 nag yn 2012/13. Byddwn yn fuan yn cyhoeddi datganiad cenedlaethol i bartneriad ar gyllido.

48. Sut yr ymgymrir â chyllido adolygiadau Dynladdiad Domestig?

A. Rydym wedi ceisio dileu costau ariannol cyn belled â phosibl dan y broses adolygu dynladdiad domestig a chredwn y gellir ymgymryd â'r broses heb osod beichiau ariannol sylweddol ar unrhyw ardal unigol ond yn gwerthfawrogi y bydd yna effaith ar amser staff. Felly, yr unig gostau cysylltiedig ag adolygiadau dynladdiad domestig fyddai petai unrhyw ardal yn penderfynu mynd allan i dendro ar gyfer hurio ymgynghorydd allanol.

Byddai'r penderfyniad parthed pwyl ddylai gyfrannu at unrhyw gyllid ar gyfer adolygu yn benderfyniad lleol.